Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Memorandwm Dealltwriaeth
# Rhaglen Arolygwyr Ymgynghorwyr Her

## Medi 2018

**Rheoli fersiwn**

| Fersiwn y ddogfen | Awdur | Dyddiad cyhoeddi | Newidiadau a wnaed |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Clive Phillips | Medi 2018 | Gwreiddiol |
| 1.1 | Hannah Roderick | Ionawr 2019 | Diwygiad i radd yr arolygiad prawf, gwybodaeth bersonol a theithio a chynhaliaeth. |
| 1.2 | Claire Ait-Hammi | July 2019 | Diwygio i'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth. |

| CYNNWYS | TUDALEN |
|---|---|


**Cyflwyniad** 1

Diben y memorandwm dealltwriaeth
I bwy mae'r memorandwm dealltwriaeth yn berthnasol?

**Cyfrifoldebau'r Consortiwm/yr ysgol sy'n cyflogi: 2**

Dewis a recriwtio
Hyfforddiant
Defnyddio mewn arolygiad
Gwerthuso
Iechyd a Diogelwch
Indemniad

**Cyfrifoldebau'r Arolygiaeth: 3**

Dewis a recriwtio
Hyfforddiant
Defnyddio mewn arolygiad
Gwerthuso
Iechyd a Diogelwch
Treuliau
Gwrthdaro buddiannau

**Cyfrifoldebau'r Ymgynghorydd Her: 5**

Hyfforddiant
Defnyddio mewn arolygiad
Gwerthuso
Iechyd a Diogelwch
Rôl yr Ymgynghorydd Her
Y defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth
Diogelu
Cod Ymddygiad
Gwrthdaro buddiannau

**ATODIAD A** – Cymhwysedd ar gyfer rôl Ymgynghorydd Her **9**

**ATODIAD B** – Protocol ac arweiniad ar gyfer yr Ymgynghorydd Her **10**

**ATODIAD C** – Iechyd a diogelwch y tîm arolygu **14**

## CYFLWYNIAD

### Pwrpas y memorandwm dealltwriaeth

1 Mae’r ddogfen hon yn amlinellu rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau’r tri pharti o ran cyfranogiad Arolygwyr Ymgynghorwyr Her mewn arolygiadau ysgol.

2 Bydd Arolygwyr Ymgynghorwyr Her sy’n cwblhau’u hyfforddiant yn llwyddiannus yn cael eu rhoi ar restr a fydd yn cynnwys gwybodaeth sy’n cynnwys cyfeiriadau e-bost, enwau, cyfeiriadau, enw cyflogwr ac arbenigeddau. Bydd yr Arolygiaeth yn defnyddio’r rhestr ar gyfer defnyddio Ymgynghorwyr Her a rhannu gwybodaeth gyda’r Ymgynghorydd Her am ddatblygiadau yn yr Arolygiaeth a chyfleoedd am ddatblygiad a hyfforddiant. Bydd Ymgynghorwyr Her yn gallu mynd at Broffil Arolygydd personol a fydd yn cynnwys eu gwybodaeth bersonol; mae’n ofynnol iddynt sicrhau bod y proffil yn gyfredol drwy’r amser i sicrhau eu bod yn cael eu dosbarthu’n briodol ar arolygiad. Bydd arolygwyr cofnodol yn gallu gweld cyfeiriadau e-bost, enwau, cyfeiriadau ac arbenigeddau pob Ymgynghorydd Her ar eu Proffiliau Arolygydd unigol at ddibenion arolygu yn unig. Bydd pob Arolygydd Ymgynghorydd Her yn cael ffurflen gwerthuso arolygydd (FfGA) ar ei berfformiad. Dylai’r Ymgynghorydd Her rannu’r ffurflen hon gyda’i gyflogwr fel rhan o’i broses rheoli perfformiad. Mae’n bosibl y bydd cyflogwyr yn gofyn am gopi o’r FfGA gan bob Ymgynghorydd Her sydd wedi’i ddosbarthu ar arolygiad Estyn.

3 Mae’r partïon yn cydnabod dyletswydd yr Arolygiaeth i gydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y Ddeddf) ac yn deall y gallai fod yn ofynnol i’r Arolygiaeth ddatgelu gwybodaeth benodol i drydydd partïon. Bydd y cyflogwr ac Arolygwyr Ymgynghorwyr Her yn cynorthwyo’r Arolygiaeth i gydymffurfio â’r Ddeddf, yn unol â chais rhesymol gan yr Arolygiaeth.

4 Mae’r partïon yn cydnabod y bydd Arolygwyr Ymgynghorwyr Her bob amser yn un o gyflogeion y cyflogwr ac ni chânt eu hystyried yn un o gyflogeion yr Arolygiaeth. Ni fydd Arolygydd Ymgynghorydd Her yn cyflwyno’i hun fel petai’n gyflogai neu’n asiant yr Arolygiaeth.

## I BWY MAE’R MEMORANDWM DEALLTWRIAETH HWN YN BERTHNASOL?

5. Mae’r memorandwm dealltwriaeth hwn yn berthnasol i’r cytundeb rhwng yr Arolygiaeth, y cyflogwr a’r Arolygydd Ymgynghorydd Her.

6. Yn y telerau ac amodau hyn, ystyr "Arolygydd Ymgynghorydd Her" yw’r unigolyn sydd wedi’i enwi yn ffurflen gais berthnasol yr Arolygydd Ymgynghorydd Her ac ystyr "cyflogwr” yw’r Consortiwm Rhanbarthol, yr Awdurdod Lleol neu’r ysgol a lenwodd y datganiad ategol yn gysylltiedig â’r unigolyn ar ffurflen gais yr Arolygydd Ymgynghorydd Her. Mae “ysgol” yn cyfeirio at ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion.

5 Daw'r memorandwm dealltwriaeth i rym ar ddyddiad y llythyr sy'n cadarnhau bod yr unigolyn wedi'i ddewis i hyfforddi'n Arolygydd Ymgynghorydd Her a bydd yn parhau oni bai y caiff ei ganslo gan un o'r partïon neu y bydd yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn newid ei gyflogaeth. Os bydd yn newid cyflogwr, bydd angen i'r Arolygydd Ymgynghorydd Her wneud cais i lunio cytundeb newydd gyda'r Arolygiaeth a'i gyflogwr newydd, trwy lenwi Ffurflen Cymeradwyaeth Cyflogwr.

6 Os bydd Arolygydd Ymgynghorydd Her yn gadael cyflogaeth yr awdurdod lleol neu'r consortiwm, neu os caiff ei benodi'n Aelod Cynulliad, Aelod Seneddol neu'n Aelod o Senedd Ewrop, ni fydd yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn gymwys mwyach i gael ei ddefnyddio mewn arolygiad.

7 Gall unrhyw un o'r partïon derfynu'r cytundeb hwn trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r ddau barti arall, o leiaf 30 diwrnod cyn y dyddiad y daw'r terfynu i rym.

8 Yn sgil terfynu'r cytundeb hwn, caiff enw'r Arolygydd Ymgynghorydd Her ei dynnu o restr yr Arolygiaeth o Arolygwyr Ymgynghorwyr Her cymeradwy.

## Cyfrifoldebau

**Mae'r cyflogwr yn cytuno i'r canlynol:**

**Dewis a recriwtio**

9 Bydd angen i uwch swyddog yn y consortiwm rhanbarthol dystio bod y darpar Arolygydd Ymgynghorydd Her yn athro neu arweinydd ysgol profedig ac effeithiol. Trwy gytuno i hyfforddiant ac asesiad cychwynnol aelod staff fel Arolygydd Ymgynghorydd Her, bydd y cyflogwr yn ymrwymo i ryddhau'r unigolyn am hyfforddiant, gwaith paratoi a defnydd, fel y manylir yn y cytundeb hwn.

10 Mae'n ofyniad bod pob Arolygydd Ymgynghorydd Her sy'n mynychu arolygiad wedi cael, drwy ei gyflogwr, dystysgrif fanwl briodol a diweddar (sef o fewn y tair blynedd diwethaf) gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Os yw'r Arolygydd Ymgynghorydd Her yn aelod o'r gwasanaeth diweddaru, mae'n ofynnol i'r Ymgynghorydd Her roi caniatâd ysgrifenedig i Estyn weld ei dystysgrif ar-lein gan y GDG, bob tair blynedd. Mae'r Arolygiaeth yn cadw'r hawl i wirio bod hyn mewn grym ar unrhyw adeg. Bydd y cyflogwr a'r awdurdod cyhoeddi yn hysbysu'r Arolygiaeth os gwyddant am unrhyw beth sy'n gysylltiedig â chofnod yr unigolyn a allai fwrw amheuaeth ar ei addasrwydd i gymryd rhan mewn arolygiadau. Dylai'r Arolygydd Ymgynghorydd Her gysylltu â'i gyflogwr os nad yw'n siŵr am ddyddiad neu addasrwydd ei gliriad diwethaf.

**Hyfforddiant**

11 Bydd y cyflogwr yn rhyddhau'r Arolygydd Ymgynghorydd Her i'w alluogi i fynychu'r rhaglen hyfforddi. Rhaid i'r ymgeisydd gwblhau pob rhan o'r hyfforddiant yn llwyddiannus i gymhwyso'n Arolygydd Ymgynghorydd Her.

12 Wrth gefnogi cais ei aelod staff am hyfforddiant Arolygydd Ymgynghorydd Her, rhaid i'r cyflogwr gytuno i ryddhau'r aelod staff i fynychu hyfforddiant diweddaru blynyddol, gan fod hyn yn orfodol ar gyfer y rôl. Byddai diffyg presenoldeb am ddwy flynedd yn olynol yn golygu y gallai enw'r Ymgynghorydd Her gael ei dynnu o restr Arolygwyr Ymgynghorwyr Her Estyn.

**Defnyddio mewn arolygiad**

13 Bydd y cyflogwr yn cyflawni ei ymrwymiad i ryddhau staff yn unol â'r telerau yn y ddogfen hon. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd yn penderfynu rhyddhau staff neu dynnu staff yn ôl o ddyletswyddau arolygu ar fyr rybudd.

**Iechyd a Diogelwch**

14 Bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau bod ei Arolygwyr Ymgynghorwyr Her enwebedig o gymeriad da a'u bod wedi dangos eu gallu i weithio'n ddiogel. Mae'r awdurdod lleol neu'r consortiwm lleol yn cadw'i ddyletswyddau statudol fel cyflogwyr i ofalu'n rhesymol am ddiogelwch yr Arolygydd Ymgynghorydd Her, hyd yn oed pan fydd yn ymweld ag awdurdodau lleol ac yn cymryd rhan yn rhaglen hyfforddiant arolygu'r Ymgynghorydd Her.

**Indemniad**

15 Rhaid i'r cyflogwr indemnio'r Arolygiaeth, y Goron a/neu ei Gweinidogion a'u cyflogeion, swyddogion, gweision ac asiantau perthnasol (bob un ohonynt yn "Berson sydd wedi ei Indemnio"), a chynnal eu hindemniad, o ran:

(a) pob atebolrwydd, colled a difrod (gan gynnwys, heb gyfyngiad, golled economaidd a cholled anuniongyrchol a chanlyniadol), cost a thraul (gan gynnwys, heb gyfyngiad, treuliau cyfreithiol) y bydd Person sydd wedi ei Indemnio yn mynd iddynt; a/neu

(b) pob hawliad, gweithred ac achos y mae trydydd parti yn eu dwyn yn erbyn Person sydd wedi ei Indemnio; a/neu

(c) (heblaw ac i'r graddau y cafodd unrhyw golled, difrod, anaf personol neu farwolaeth a ddioddefwyd gan yr Arolygydd Ymgynghorydd Her ei achosi gan esgeulustod y Person hwnnw sydd wedi ei Indemnio) pob hawliad, gweithred ac achos sy'n cael eu dwyn gan neu ar ran yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn erbyn Person sydd wedi ei Indemnio; ym mhob achos yn deillio'n uniongyrchol neu'n

anuniongyrchol o ganlyniad i ymwneud yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn rhaglen arolygu Ymgynghorwyr Her, neu'n gysylltiedig â hynny.

## B CYFRIFOLDEBAU'R AROLYGIAETH

**Mae'r Arolygiaeth yn cytuno i'r telerau ac amodau canlynol.**

### Dewis a recriwtio

16 Bydd hysbysebion yn gwahodd ceisiadau i hyfforddi'n Arolygydd Ymgynghorydd Her yn cael eu rhoi ar wefan yr Arolygiaeth. Hefyd, gallai'r Arolygiaeth gysylltu â Chonsortia Rhanbarthol a gwahodd ceisiadau i hyfforddi gan ddarpar Arolygwyr Ymgynghorwyr Her. Bydd yr Arolygiaeth yn ystyried ceisiadau ac yn gwahodd ymgeiswyr addas i hyfforddiant. Cânt eu hamlygu ar sail y meini prawf yn **Atodiad A**. Yn ogystal, bydd unrhyw ymgynghorydd her presennol sydd wedi cael ei ailhyfforddi'n Arolygydd Ychwanegol neu'n Arolygydd Cofnodol gan yr Arolygiaeth o dan y Trefniadau Arolygu Newydd yn 2017 yn gymwys i fod yn Arolygydd Ymgynghorydd Her.

### Hyfforddiant

Bydd yr Arolygiaeth yn darparu rhaglen hyfforddi ac asesu ar gyfer darpar Arolygwyr Ymgynghorwyr Her. Dim ond y rheiny sy'n cwblhau'r asesiad yn llwyddiannus fydd yn dod yn Arolygwyr Ymgynghorwyr Her. Dim ond yr Ymgynghorwyr Her hynny sydd â thystysgrif ddilys gan y GDG fydd yn cael eu gwahodd i hyfforddiant cychwynnol/ hyfforddiant diweddaru.

### Defnyddio mewn arolygiad

17 Bydd yr Arolygiaeth yn anelu at ddefnyddio Arolygwyr Ymgynghorwyr Her am uchafswm o 5 niwrnod mewn unrhyw arolygiad unigol.

18 Fel arfer, bydd yr Arolygiaeth yn rhoi tymor o rybudd i Arolygwyr Ymgynghorwyr Her, wrth eu gwahodd i gymryd rhan mewn arolygiad.

19 Bydd yr Arolygiaeth yn sicrhau bod y cydlynydd arolygu yn bwynt cyswllt cyffredinol ar gyfer yr Arolygydd Ymgynghorydd Her cyn ac yn ystod arolygiad.

### Gwerthuso

20 Ar ddiwedd pob arolygiad, bydd yr Arolygydd Cofnodol/AEM yn cwblhau gwerthusiad o berfformiad pob aelod o'r tîm arolygu sydd dan gontract, gan gynnwys yr Arolygydd Ymgynghorydd Her. Bydd perfformiad yr Arolygydd Ymgynghorydd Her mewn arolygiad yn cael ei werthuso yn unol â'r polisi sicrhau ansawdd a'r arweiniad cysylltiedig ar wefan Estyn.

21 Os nad yw Arolygwyr Ymgynghorwyr Her yn perfformio'n effeithiol yn ôl yr Arolygiaeth, ni chânt eu defnyddio mewn arolygiadau pellach. Caiff eu cyflogwyr eu hysbysu am y penderfyniad hwn.

**Iechyd a diogelwch**

22 Yn unol â deddfwriaeth ac arweiniad iechyd a diogelwch, mae'r Arolygiaeth yn disgwyl bod yr ysgol sy'n cael ei harolygu wedi cynnal asesiadau risg iechyd a diogelwch addas neu ei bod yn gallu gwirio bod asesiadau risg iechyd a diogelwch wedi cael eu cynnal cyn yr arolygiad.

23 Caiff materion iechyd a diogelwch eu cynnwys yn y rhaglen hyfforddi ar gyfer darpar Arolygwyr Ymgynghorwyr Her.

**Treuliau**

24 Bydd yr Arolygiaeth yn ad-dalu treuliau teithio a chynhaliaeth rhesymol i Arolygwyr Ymgynghorwyr Her pan gânt eu defnyddio mewn arolygiadau, gan ddefnyddio'r cyfraddau canlynol:

| | |
|---|---|
| **Milltiredd Car** | **45c y filltir** |
| **Cinio (uchafswm) (bydd angen derbynebau)** | **Hyd at £9** |
| **Pryd bwyd gyda'r nos, ac eithrio alcohol (bydd angen derbynebau)** | **Hyd at £27** |

25 Bydd yr Arolygiaeth yn darparu llety i Arolygwyr Ymgynghorwyr Her os byddant yn byw dros 40 milltir i ffwrdd o leoliad yr arolygiad.

26 Bydd yr Arolygiaeth yn darparu llety os bydd y darpar Arolygwyr Ymgynghorwyr Her yn byw dros 40 milltir i ffwrdd o'r cwrs hyfforddi ac asesu cychwynnol. Bydd costau teithio yn cael eu had-dalu i ddarpar Arolygwyr Ymgynghorwyr Her ar gyfer cyrsiau hyfforddi ac asesu cychwynnol.

27 Ni fydd yr Arolygiaeth yn ad-dalu costau teithio a chynhaliaeth i Arolygwyr Ymgynghorwyr Her ar gyfer cyrsiau hyfforddiant diweddaru.

28 Ni fydd yr Arolygiaeth yn ad-dalu costau cyflenwi i Arolygwyr Ymgynghorwyr Her na'u cyflogwr tra byddant yn mynychu digwyddiadau hyfforddi Estyn na phan fyddant yn cael eu defnyddio mewn arolygiad gan Estyn.

29 **Gwrthdaro buddiannau**

30 Ni fydd yr Arolygiaeth yn defnyddio Arolygwyr Ymgynghorwyr Her mewn arolygiadau os bydd gwrthdaro buddiannau. Dylai Arolygwyr Ymgynghorwyr Her gyfeirio at y polisi Gwrthdaro Buddiannau ar wefan Estyn a diweddaru'u proffil Arolygydd gydag unrhyw wrthdaro canfyddedig neu wrthdaro gwirioneddol.

## C. CYFRIFOLDEBAU'R AROLYGYDD YMGYNGHORYDD HER

**Mae'r Arolygydd Ymgynghorydd Her yn cytuno i'r telerau ac amodau canlynol.**

### Hyfforddiant

31 Mae'r Arolygydd Ymgynghorydd Her yn cytuno i fynychu'r rhaglen hyfforddi ac asesu, a fydd yn cynnwys:

- **Cwrs hyfforddiant asesedig**
- **Arolygiad(au) prawf**
- Fel arfer, rhaid i'r darpar Arolygydd Ymgynghorydd Her gael gradd C neu uwch ar Ffurflen Gwerthuso Arolygydd (FfGA) gan yr Arolygydd Cofnodol ar ddiwedd yr arolygiad er mwyn i Estyn ei ddefnyddio mewn arolygiadau pellach.

- **Hyfforddiant diweddaru blynyddol**

32 Bydd yr Arolygiaeth yn darparu llety ac yn ad-dalu costau teithio i ddarpar Arolygwyr Ymgynghorwyr Her ar gyfer teithio i gyrsiau hyfforddiant cychwynnol. Ni fydd yr Arolygiaeth yn ariannu rhyddhau'r Arolygydd Ymgynghorydd Her er mwyn mynychu cyrsiau hyfforddiant.

33 Byddai diffyg presenoldeb am ddwy flynedd yn olynol yn golygu bod enw'r Arolygydd Ymgynghorydd Her yn cael ei dynnu o restr Arolygwyr Ymgynghorwyr Her Estyn.

### Defnyddio mewn arolygiad

34 Bydd yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn cadarnhau ei fod yn destun cliriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) a bydd yn rhoi gwybod i'r Arolygiaeth am unrhyw ffactorau perthnasol yn gysylltiedig â'u gwiriad gan y GDG fel amod o'u defnyddio.

35 Cyn yr arolygiad, bydd yn ofynnol i Arolygwyr Ymgynghorwyr Her ymgyfarwyddo â'r papur briffio gan yr Arolygydd Cofnodol, sy'n amlinellu'r wybodaeth sylfaenol am drefniadaeth yr arolygiad. Bydd angen i Arolygwyr Ymgynghorwyr Her archwilio dogfennau allweddol fel dogfennau hunanwerthuso'r darparwr, gwybodaeth am y darparwr a chwestiynau lleol sydd wedi'u nodi gan yr Arolygydd Cofnodol. Bydd hyn yn gofyn am ddeuddydd yn ystod yr wythnos cyn yr arolygiad. Bydd yr Arolygydd Cofnodol yn sicrhau bod y wybodaeth berthnasol ar gael yn yr Ystafell Arolygu Rithwir (YAR).

## Gwerthuso

36 Ar ddiwedd pob arolygiad, bydd yr Arolygydd Cofnodol/AEM yn cwblhau gwerthusiad o berfformiad yr Arolygydd Ymgynghorydd Her. Bydd y broses yn cynnwys y cyfle i'r Arolygydd Ymgynghorydd Her gwblhau hunanasesiad. Bydd yr Arolygydd Cofnodol/AEM yna'n cwblhau gwerthusiad cyffredinol o berfformiad. Bydd manylion pellach am y system werthuso ar gael ar ôl y digwyddiad hyfforddi cychwynnol, ar wefan Estyn.

37 Os na fydd Arolygwyr Ymgynghorwyr Her yn perfformio'n effeithiol yn ôl yr Arolygiaeth, ni chânt eu defnyddio mewn arolygiadau pellach.

## Iechyd a diogelwch

Bydd yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn dilyn yr arweiniad iechyd a diogelwch a ddarperir gan yr Arolygydd Cofnodol fel rhan o friff yr arolygiad. Bydd yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn cymryd gofal rhesymol o'i iechyd a'i ddiogelwch ei hun ac iechyd a diogelwch pobl eraill y mae ei weithredoedd neu ei anweithredoedd yn effeithio arnynt yn ystod yr arolygiad. Mae manylion pellach wedi'u cynnwys yn **Atodiad C**

38 Bydd yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn cymryd cyfrifoldeb am ei ddiogelwch ei hun, bydd yn sensitif i ddiogelwch pobl eraill a bydd yn cydweithredu'n llawn â'r gweithdrefnau iechyd a diogelwch sydd ar waith. Mae manylion pellach wedi'u cynnwys yn **Atodiad B**.

## Rôl yr Arolygydd Ymgynghorydd Her

39 Bydd yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn gweithio ochr yn ochr â'r Arolygydd Cofnodol sy'n cynnal yr arolygiad penodol, ac o dan ei arweiniad.

40 Nodir dyletswyddau Arolygydd Ymgynghorydd Her yn Atodiad B y Protocol a'r Arweiniad ar gyfer Arolygwyr Ymgynghorwyr Her.

41 Bydd tasgau penodol ar gyfer yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn cael eu neilltuo gan yr Arolygydd Cofnodol ar ddechrau'r arolygiad.

## Defnyddio Technoleg Gwybodaeth

42 Bydd yn ofynnol i Arolygwyr Ymgynghorwyr Her ddarparu gliniadur at eu defnydd eu hunain yn ystod y cyfnod arolygu, gyda:

- Microsoft Word 2007 neu ddiweddarach
- cysylltiad â'r rhyngrwyd (rhaid i'ch gliniadur allu cysylltu â Wi-Fi neu raid i chi drefnu eich dull eich hun o gysylltu â'r rhyngrwyd)
- System weithredu Windows

- porwr rhyngrwyd (Internet Explorer 9 yw'r pecyn meddalwedd sy'n cael ei ffafrio. Fodd bynnag, dylai unrhyw borwr sy'n llai na dwy flwydd oed fod yn gydnaws â'n systemau).

**Sylwch:**

- Gellir defnyddio Mac DIM OND os oes ganddo fersiwn diweddar o Microsoft Word arno (a defnyddio nodwedd efelychu PC)
- Ni ellir defnyddio llechi (gan gynnwys iPads) ar hyn o bryd
- Dylai defnyddwyr Mac ddarllen adran Newyddion ac Arweiniad yr YAR ar yr Allrwyd i gael y cyngor diweddaraf gan ein bod yn ystyried diweddariadau i systemau a fydd yn galluogi defnyddio Mac ar Arolygiadau.

- Bydd yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn darparu copi electronig o'r Ffurflen Farnau yn cynnwys ei ganfyddiadau arolygu a thystiolaeth ategol. Rhaid darparu'r Ffurflen Farnau gyflawn mewn Microsoft Word 2007 neu ddiweddarach a defnyddio'r templed a ddarperir drwy'r Ystafell Arolygu Rithwir ar ddechrau'r arolygiad. Erys pob gwybodaeth a thystiolaeth yn eiddo i'r Arolygiaeth.

- Rhaid i'r Arolygydd Ymgynghorydd Her gytuno i gadw at Bolisi Sicrhau Gwybodaeth yr Arolygiaeth, sydd ar gael ar y wefan.

**Diogelu**

43 Bydd yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn ymgyfarwyddo â pholisi Diogelu'r Arolygiaeth ac yn ei ddilyn pan fydd ar arolygiad.

**Cod ymddygiad**

44 Bydd yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn cadw at y 'Cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr' yn y llawlyfr arweiniad perthnasol ar gyfer Arolygu Ysgolion. Bydd yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn cynnal cyfrinachedd llwyr ar bob adeg. Ni chaiff gwybodaeth a dogfennau penodol i ysgol gael eu rhannu gydag unrhyw unigolyn sydd heb gysylltiad â'r arolygiad ac ni ddylid rhoi copïau iddo ychwaith. Mae sail dystiolaeth yr arolygiad, fel y'i disgrifir yn y dogfennau arweiniad, yn eiddo i'r Arolygiaeth.

45 Yn amodol ar yr angen am gyfrinachedd, fel y'i hamlinellir yn Atodiad B, gall yr Arolygydd Ymgynghorydd Her rannu gwybodaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad am brosesau a gweithdrefnau'r Arolygiaeth gyda'i gyflogwr ei hun. Fodd bynnag, os yw'n dymuno rhannu dogfennau penodol neu enghreifftiau o arfer a welodd yn ystod yr arolygiad, rhaid iddo gael caniatâd yr ysgol dan sylw.

46 Caiff yr Arolygydd Ymgynghorydd Her ei annog i ddefnyddio'r profiad a gaiff drwy ei hyfforddi a'i ddefnyddio fel Arolygydd Ymgynghorydd Her yn ei rôl ei hun i helpu gyda'r broses o wella ysgol a datblygu a gweithredu prosesau hunanwerthuso.

## Gwrthdaro buddiannau

47 Cyn mynychu'r cwrs hyfforddi, bydd yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn datgan unrhyw wrthdaro buddiannau personol neu broffesiynol posibl sydd ganddo mewn perthynas â'i gonsortiwm neu ysgolion eraill. Mae'r gwrthdaro hwn yn cynnwys unrhyw gysylltiadau, perthynas neu wybodaeth flaenorol neu bresennol am ysgolion ac unrhyw ddyletswyddau yr ymgymerodd â nhw fel gwiriwr allanol. Wedyn, rhaid i'r Arolygydd Ymgynghorydd Her roi gwybod i'r Arolygiaeth am unrhyw newid i'w statws cyn gynted ag y byd yn digwydd.

48 Wrth ymateb i lythyr yr Arolygiaeth yn ei wahodd i fod yn bresennol mewn arolygiad, bydd yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn anfon cadarnhad o'i bresenoldeb drwy e-bost ac yn rhoi gwybod i'r arolygiaeth am unrhyw newid i fuddiannau sy'n gwrthdaro. Dylai'r Arolygydd Ymgynghorydd Her sicrhau bod ei Broffil Arolygydd yn gwbl gyfredol trwy lanlwytho ffotograff presennol at ddibenion adnabod, gan sicrhau bod yr holl fanylion cyswllt yn gyfredol a'i fod wedi datgan pob hepgoriad a phob buddiant sy'n gwrthdaro.

## ATODIAD A

## CYMHWYSEDD AR GYFER RÔL AROLYGYDD YMGYNGHORYDD HER

**Ar hyn o bryd, bydd Ymgynghorwyr Her yn cael eu cyflogi naill ai gan Gonsortiwm/Awdurdod Lleol neu gan ysgol yng Nghymru a byddai angen iddynt ddangos POB UN o'r canlynol:**

- cymeradwyaeth gan eu cyflogwr/contract â'u cyflogwr;
- cymryd rhan yn rheolaidd mewn herio a chefnogi ysgolion;
- o leiaf 5 mlynedd o brofiad fel athro effeithiol mewn ysgolion cynradd neu ysgolion uwchradd;
- o leiaf 3 flynedd o brofiad fel uwch arweinydd;
- cymeriad da a'r gallu i weithio'n ddiogel; a
- gwybodaeth gyfredol (sy'n berthnasol i'r sector dan sylw).

Mae priodoleddau hanfodol Arolygwyr Ymgynghorwyr Her yn cynnwys:

- gonestrwydd, uniondeb a phriodoldeb;
- cyfathrebu da ar lafar
- sgiliau ysgrifennu datblygedig
- sgiliau TGCh da
- gallu i gasglu meddyliau ynghyd yn rhesymegol
- y gallu i bwyso a mesur tystiolaeth yn ofalus
- y gallu i ffurfio barn sicr
- y gallu i esbonio ac amddiffyn gwerthusiadau
- y gallu i weithio fel aelod o dîm
- parodrwydd a'r gallu i weithio'n hyblyg
- y gallu i gadw at y gofyniad am gyfrinachedd llwyr

## ATODIAD B

## PROTOCOL AC ARWEINIAD AR GYFER AROLYGWYR YMGYNGHORWYR HER

### Egwyddorion cyffredinol

Mae'r Arolygydd Ymgynghorydd Her yn aelod llawn o'r tîm a bydd ganddo'r un ystod a math o gyfrifoldebau ag aelodau eraill y tîm.

Bydd yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn ymweld â sampl o ddosbarthiadau yn yr un ffordd ag aelodau eraill y tîm a bydd yn gallu cyfrannu at farnau'r tîm ar bob agwedd sy'n cael ei harolygu. Yn yr un modd ag aelodau eraill y tîm, mae'n ofynnol i'r Arolygydd Ymgynghorydd Her gyflwyno'r dystiolaeth a'r barnau gofynnol ar ffurf ysgrifenedig/ electronig ar y ffurflen farnau adrodd (FfF) cyn gadael yr ysgol ar ddiwedd arolygiad.

Bydd Arolygwyr Ymgynghorwyr Her yn gwybod y diweddaraf am ofynion perthnasol y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cwricwlwm Sylfaenol a/neu ofynion cyrff arholi/dyfarnu.

Cyfranogiad Ymgynghorwyr Arolygwyr Her mewn arolygiadau:

- cyfrannu at arbenigedd timau arolygu ac ymestyn perchenogaeth ysgolion ar y broses arolygu;
- hyrwyddo dealltwriaeth ysgolion o arolygu;
- galluogi rhannu arfer dda;
- helpu i ddatblygu'r sgiliau y mae ar ysgolion eu hangen i gynnal eu hunanwerthusiad eu hunain yn effeithiol; a
- galluogi unigolion i ennill cipolwg gwell i'r broses arolygu yn ogystal â chynnig cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer eu datblygiad proffesiynol eu hunain.

### Rôl yr Arolygydd Ymgynghorydd Her

Bydd yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn gweithredu fel aelod llawn o'r tîm arolygu, er nad ystyrir ei fod yn gyflogai'r arolygiaeth. Bydd yn ofynnol iddo:

- arsylwi sesiynau a gweithgareddau eraill;
- cynnal teithiau dysgu;
- gwrando ar ddysgwyr;
- craffu ar samplau o waith;
- cymryd rhan mewn trafodaethau gyda staff ac eraill;
- archwilio dogfennau;
- gwerthuso effaith polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau'r darparwr;
- arwain neu gyfrannu at faes arolygu neu gwestiwn sy'n dod i'r amlwg; ac
- ysgrifennu adrannau o'r adroddiad, y mae'n rhai eu cyflwyno i'r Arolygydd Cofnodol ar ddiwedd y cyfnod arolygu yn yr ysgol.

## Cyfrifoldebau'r Arolygydd Ymgynghorydd Her

Bydd yr Arolygydd Ymgynghorydd Her:

- yn meddu ar wybodaeth ymarferol o arweiniad y sector ar gyfer arolygu ysgolion;
- yn ymddwyn yn unol â'r cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr;
- yn gyfarwydd â'r protocol a'r arweiniad hwn ar rôl yr Arolygydd Ymgynghorydd Her;
- yn meddu ar ddealltwriaeth o'r cwestiynau sy'n dod i'r amlwg, tystiolaeth hunanwerthuso a chynllun gwella'r ysgol, ac unrhyw dystiolaeth ddogfennol arall, gan gynnwys unrhyw wybodaeth am berfformiad;
- yn cwblhau dogfennau arolygu, gan gynnwys ffurflenni gwerthuso (FfG) a ffurflenni barnau (FfBau), ar brosesydd geiriau yn unig;
- yn cyfrannu at gyfarfodydd y tîm arolygu;
- yn cyfrannu at farnau corfforaethol;
- yn arwain neu'n cyfrannu at feysydd arolygu a/neu gwestiynau sy'n dod i'r amlwg;
- yn ysgrifennu adrannau o'r adroddiad yn unol â chyfarwyddyd yr Arolygydd Cofnodol;
- yn mynychu unrhyw gyfarfod a gynhelir yn ystod wythnos yr arolygiad lle rhoddir adborth i'r ysgol ar agweddau ysgol gyfan; ac
- yn parchu cyfrinachedd pob gwybodaeth sy'n dod i law yn ystod yr arolygiad.

## Cyfrifoldebau'r Arolygydd Cofnodol

Bydd yr Arolygydd Cofnodol:

- yn cysylltu â'r Arolygydd Ymgynghorydd Her;
- yn amlinellu rôl benodol yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn yr arolygiad;
- yn sicrhau bod y cydlynydd arolygu yn trefnu bod yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn gallu cael at yr holl ddogfennau perthnasol cyn dechrau'r arolygiad;
- yn sicrhau bod yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn cael ei ddefnyddio fel aelod llawn o'r tîm;
- yn sicrhau bod yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn ymwybodol o'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd tîm a gweithgareddau eraill, fel craffu ar waith disgyblion;
- yn sicrhau ansawdd gwaith yr Arolygydd Ymgynghorydd Her;
- yn rhoi adborth ar berfformiad yr Arolygydd Ymgynghorydd Her; ac
- yn sicrhau bod yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn ymwybodol o werthoedd craidd a pholisïau'r Arolygiaeth (e.e. o ran iechyd a diogelwch, bwlio ac ati) ac yn eu dilyn.

**Gweithgareddau yn y broses arolygu**

Cyn yr arolygiad

| | |
|---|---|
| Mae'r Arolygydd Ymgynghorydd Her | • yn ymgyfarwyddo ag arweiniad y sector;<br>• yn ymgyfarwyddo â'r protocol a'r arweiniad hwn ar rôl yr Arolygydd Ymgynghorydd Her; ac<br>• yn cael cyfarwyddyd ar gyfer mynd i mewn i'r Ystafell Arolygu Rithwir er mwyn gallu cael at yr holl ddogfennau angenrheidiol. |
| Mae'r Arolygydd Cofnodol | • yn cael enw a gwybodaeth gefndir am yr Arolygydd Ymgynghorydd Her ac yn neilltuo rolau a chyfrifoldebau i'r Arolygydd Ymgynghorydd Her; ac<br>• yn gwirio bod y cydlynydd arolygu wedi trefnu bod yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn gallu mynd i mewn i'r Ystafell Arolygu Rithwir cyn dechrau'r arolygiad ac wedi trefnu llety, lle y bo'n berthnasol. |

Yn ystod yr arolygiad

| | |
|---|---|
| Mae'r Arolygydd Ymgynghorydd Her | • yn unol â chyfarwyddyd yr Arolygydd Cofnodol, yn ymgymryd â'r un tasgau ag aelodau eraill y tîm yn y cyfarfod tîm, cyn i'r arolygiad ddechrau;<br>• yn gweithio trwy gydol yr arolygiad o dan gyfarwyddyd yr Arolygydd Cofnodol;<br>• yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm;<br>• yn cyfrannu at farnau corfforaethol;<br>• yn archwilio gwaith disgyblion;<br>• yn ymgymryd ag arsylwadau dosbarth a gweithgareddau dysgu eraill, er enghraifft teithiau dysgu;<br>• yn gwrando ar ddysgwyr;<br>• yn cwblhau pob dogfen fel y bo'n briodol;<br>• yn cael sgwrs broffesiynol fer gydag athrawon ar ôl arsylwi eu dosbarthiadau;<br>• yn cyfrannu at ysgrifennu'r adroddiad;<br>• yn mynd i unrhyw gyfarfodydd adborth am agweddau ysgol gyfan a gynhelir yn ystod wythnos yr arolygiad a, lle y bo'n briodol, yn helpu i roi adborth yn gysylltiedig â'i agwedd. |
| Mae'r Arolygydd Cofnodol | • yn monitro gwaith yr Arolygydd Ymgynghorydd Her ac yn rhoi cymorth fel y bo'n briodol;<br>• yn sicrhau bod yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn cymryd rhan yn llawn yn yr arolygiad; ac |

| | |
|---|---|
| | • yn sicrhau bod yr Arolygydd Ymgynghorydd Her yn cyfrannu at y barnau corfforaethol. |

Ar ddiwedd yr arolygiad:

| | |
|---|---|
| Mae'r Arolygydd Ymgynghorydd Her | • yn sicrhau bod yr Arolygydd Cofnodol yn derbyn pob dogfen ysgrifenedig berthnasol yn y fformat rhagnodedig;<br>• yn llenwi'r adran hunanasesu yn y ffurflen gwerthuso arolygydd (FfGA – o fewn 5 diwrnod gwaith); ac<br>• yn dychwelyd holl ddogfennau'r ysgol a'r arolygiad. |
| Mae'r Arolygydd Cofnodol | • yn rhoi adborth i'r Arolygydd Ymgynghorydd Her ar ansawdd ei waith yn ystod yr arolygiad ac yn llenwi'r ffurflen gwerthuso arolygydd (FfGA)<br>• yn cofnodi presenoldeb yr Arolygydd Ymgynghorydd Her ar restr y tîm yn yr YAR |

Dylai adborth yr Arolygydd Cofnodol i'r Arolygydd Ymgynghorydd Her ymwneud â chael tystiolaeth, llunio barnau, cyfathrebu ac ymddygiad.

**Defnyddio'r Arolygydd Ymgynghorydd Her**

Bydd Arolygwyr Ymgynghorwyr Her:

- yn cael eu defnyddio mewn ysgolion sy'n gwasanaethu'r un ystod oedran disgyblion â'u sector o ddewis; ac
- yn cael eu defnyddio mewn ysgol lle nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau personol na phroffesiynol.

Bydd yr Arolygiaeth yn gwneud pob ymdrech i ddefnyddio Arolygwyr Ymgynghorwyr Her mewn arolygiadau, ond ni all roi sicrwydd o hyn.

**Hyfforddiant**

Amcanion cwrs hyfforddi Arolygwyr Ymgynghorwyr Her a'r hyfforddiant diweddaru blynyddol yw galluogi darpar Arolygwyr Ymgynghorwyr Her i ddeall y broses arolygu, yr egwyddorion sy'n sylfaen i'r broses a'r meini prawf ar gyfer llunio barnau.

**Gwerthuso**

Bydd yr Arolygiaeth yn monitro perfformiad Arolygwyr Ymgynghorwyr Her. Dylai'r Ymgynghorydd Her rannu copi o ffurflen gwerthuso arolygydd (FfGA) gyflawn gyda'i gyflogwr.